**Tai Fforddiadwy – Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**3 Rhagfyr 2007**

**Jocelyn Davies, Y Dirprwy Weinidog dros Dai**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi y bydd Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) arfaethedig ym maes tai fforddiadwy yn cael ei osod heddiw.

Cynhwysodd *Cymru'n Un*, y rhaglen ar gyfer Llywodraethu, ymrwymiad i geisio cael pŵer deddfwriaethol i'r Cynulliad er mwyn atal dros dro'r Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle mae pwysau am dai. Gwnaed ymrwymiadau hefyd ym Maniffestos y ddau bartner yn y glymblaid. Dyma'r sail ar gyfer yr GCD arfaethedig sy'n cael ei gyhoeddi heddiw.

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi cymryd camau mewn nifer o feysydd ynghylch tai fforddiadwy. Er mwyn cymryd camau pellach ynghylch tai fforddiadwy, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu bod angen pwerau ychwanegol drwy gyfrwng Mesur Cynulliad o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai'r GCD yn galluogi'r Cynulliad felly i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad i fynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol y mae'r Hawl i Brynu wedi'i achosi yn y cyflenwad o dai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl y mae arnynt angen tai. Yn benodol, gallai'r GCD alluogi'r Cynulliad i basio Mesur i atal dros dro'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael mewn ardaloedd lle mae pwysau am dai.

Gwnaf Ddatganiad Deddfwriaethol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr.